TGAU Economeg y Cartref – Datblygiad y Plentyn

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfleoedd i chi:

- Estyn a defnyddio eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddatblygiad plant o'r cenhedlu hyd at bum mlwydd oed.
- Datblygu eich gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion dynol o fewn cymdeithas amrywiol.
- Archwilio materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd dynol gan gynnwys gwerthfawrogiad o amrywiaeth.
- Gael eich hysbrydoli, eich symbylu a'ch newid trwy astudio cwrs eang, cydlynus, gwerth-chweil a sy'n rhoi boddhad.

Sut fyddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs wedi ei rannu yn chwe maes astudio craidd gorfodol. Maent wedi eu dylunio i hyrwyddo dealltwriaeth o ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol y plentyn sy'n cael eu rhyng-gysylltu trwy astudio'r teulu, y gymuned a chyfrifoldeb bod yn rhieni.
Bydd dwy wers yr wythnos. Bydd yr asesiadau dan reolaeth a'r papur ysgrifenedig yn seiliedig ar y chwe maes astudio craidd.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

- **Gwaith Cwrs** (60%) – dwy dasg Asesiad Dan Reolaeth
  Tasg 1 (30%): **Astudiaeth Plentyn**- Archwiliad a chynhyrchiad yn canolbwyntio ar ddatblygiad plentyn.
  Tasg 2 (30%): **Tasg yn canolbwyntio ar y plentyn**- yn seiliedig ar Fwyd ac Iechyd.
- **Arholiad** (40%) – Papur ysgrifenedig 1 ½ awr.

Cofiwch!

- Rydym yn chwilio am unigolion gyda'r gallu i feddwl yn ddychmygus sy'n gweithio yn annibynnol ac yn hynod weithgar.
- Rhoddir pwyslais ar asesiadau dan reolaeth. Bydd angen cwblhau y gwaith paratoi fel gwaith cartref pob wythnos yn ddi-ffael.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Miss Sioned Williams

Ysgol Eifionydd
Porthmadog